**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Fawrth Mawrth 19eg 2019 am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cyng Alyn Ashworth (Is-gadeirydd), Philip Stevens, Dyfrig Berry, Gaynor Morgan Rees; Jenny Barlow (Clerc Y Dref)

**Ymddiheuriadau:** Cyng Irene Williams, Rob Parkes & Lara Pritchard.

Croesawodd yr is gadeirydd bawb i gyfarfod mis Mawrth.

1. **Datgan Diddordeb Personol:** Dim

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar nos Fawrth 19eg o Chwefror 2019.**

3. **Materion yn codi** - e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Ian Weaver o GSDd ynghylch diweddariad ar yr ymholiad a anfonwyd ar gais 01/2019/0003, amrywiad amod.

4. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

   Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau ar y ceisiadau isod.

   (1) 01/2019/0138
   36 Cysgod Y Graig, Dinbych.
   Newid defnydd ac addasu garej ddomestig i ffurfio salon trin gwallt/harddwch.

   (2) 01/2019/0090
   Fferm Kilford, Ffordd Eglwyswen, Dinbych.
   Addasiadau ac estyniad i'r annedd i ddarparu llety byw ychwanegol (ailgyflwyno).

   (3) 01/2019/0091
   Fferm Kilford, Ffordd Eglwyswen, Dinbych.
   Addasiadau ac estyniad i'r annedd i ddarparu llety byw ychwanegol (cais adeilad rhestredig) (ailgyflwyno).

   (4) 01/2019/0128
   Co-Operative, 26 Stryd Fawr, Dinbych.
   Symud adeilad allanol o'r cefn a gosod offer mecanyddol newydd. Drws diogelwch metel newydd i'r drychiad blaen a gwaith adnewyddu i'r adeilad. (Cais diwygiedig).

   Hoffai'r cynghorwyr tref nodi:
   Mae 2 goeden eirin Dinbych a fydd yn agos iawn at y system awyru newydd.
   Mae gan eirin Dinbych statws gwarchodedig ac mae angen gwneud ymchwil i weld a fydd y sychder o'r system awyru yn cael unrhyw effaith ar y coed. A ellid symud y system awyru i atal difrod i'r coed gwarchodedig?
   Os bydd difrod tymor hir i'r coed, a fyddai'r Co-Op yn barod i blannu 2 goeden newydd mewn lleoliad arall ? (Cae Dai o bosibl)

   Lefel sŵn - mae trigolion lleol wedi mynegi pryderon ynghylch y lefelau sŵn o'r system awyru. Mae angen cadw at yr un amodau â'r cais blaenorol.

(5) 01/2019/0129
Co-Operative, 26 Stryd Fawr, Dinbych.
Symud adeilad allanol o’r cefn a gosod offer mecanyddol newydd. Drws diogelwch metel newydd i’r drychiad blaen a gwaith adnewyddu i’r adeilad. (Cais diwygiedig adeilad rhestredig).

Hoffai'r cynghorwyr tref nodi - sylwadau fel eitem 4.

(6) 01/2019/0180
Tir ger Cae Topyn, Hen Ffordd Rhuthun, Ffordd Eglwyswen, Dinbych.
Amrywio amod 2 o ganiatâd cynllunio cod rhif 01/2016/0374 i ganiatáu amrywiad o fathau o dai diwygio gosodia y safle i ymgorfforo is-orsaf drydan.

Hoffai'r cynghorwyr tref nodi:
Mae'r is-orsaf drydan yn debygol o effeithio ar yr olygfa tuag at Ffordd Eglwys Wen.
Mae'r lluniau a gymerwyd yn gamarweiniol gan eu bod wedi'u cymryd ar ongl.
Byddai'r gwrych yn cuddio Eglwys Wen, dyma oedd un o'r gwrthwynebiadau ar y dechrau.

(7) 01/2019/0184
Peacock House, Plas Castell, Lon Tarw, Dinbych.
Gwaith i goed mewn ardal gadwraeth.

Am nad oedd mwy i’w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 6.50yh.

Arwyddwyd:…………………………………………………(cadeirydd)

Dyddiad:…………………………………